***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2425

# Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2007

**Cyfyngiad o 27 o ddiwrnodau ar gynnal crynhoad anifeiliaid**

**6.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 7 ac 8, ni chaiff neb ganiatáu crynhoad anifeiliaid ar fangre y mae anifeiliaid wedi cael eu cadw arni nes bydd 27 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers y diwrnod—

(a) y gadawodd yr anifail olaf y fangre honno; a

(b) ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre, pan fydd yr holl gyfarpar y daeth yr anifeiliaid i gysylltiad ag ef wedi ei lanhau fel nad oes unrhyw halogiad gweladwy.